PDF Argraffu Cyfeirnodi

# BOWEN, DAVID (1774 - 1853), Felinfoel, gweinidog

**Enw:** David Bowen
**Dyddiad geni:** 1774
**Dyddiad marw:** 1853
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Morris Brynllwyn Owen

Ganwyd yn Bryn Bach, Felinfoel, 11 Rhagfyr 1774. Bedyddiwyd ef gan Daniel Davies, Felinfoel, 14 Mai 1797, a dechreuodd bregethu yn 1798. Urddwyd ef 25 Awst 1806 gan Titus Lewis a Joshua Watkins, Caerfyrddin, i fod yn gydweinidog a Daniel Davies, a chartrefai ym Mhontlludw. Yn 1831 ffurfiwyd Seion, Llanelli, yn eglwys, a dewiswyd Bowen ganddi i'w bugeilio. Treuliodd weddill ei oes i'w gwasanaethu a bu farw 18 Tachwedd 1853.

## Awdur

**Y Parchedig Morris Brynllwyn Owen** , (1875 - 1949)

## Ffynonellau

B. Humphreys, *Hanes Bedyddwyr Felinfoel: Cyfrol goffa dau can mlwyddiant, 1709-1909* (Llanelli 1909)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738024

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Owen, M. B., (1953). BOWEN, DAVID (1774 - 1853), Felinfoel, gweinidog. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BOWE-DAV-1774

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government